sportwales
chwaraeoncymru

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government

association for Physical Education

ACTIVE MARC CYMRU

Nodiadau cyfarwyddyd ar gyfer cwblhau cais ActiveMarc Cymru

2010 – 2011

ACTIVE MARC CYMRU

Mae gwobr ansawdd ActiveMarc Cymru wedi'i datblygu rhwng y Gymdeithas Addysg Gorfforol (www.afpe.org.uk) a Chwaraeon Cymru. Rhoddir statws ActiveMarc Cymru i ysgolion sy'n dangos ymrwymiad i ddatblygu Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol o safon i bob plentyn. Mae'n gyfle i ddathlu a chydnabod llwyddiant ac arfer da mewn ysgolion.

Bydd yr ymgeiswyr yn cael defnydd o edrych yng ngwefannau Chwaraeon Cymru / AGChY / Campau'r Ddraig / 5x60 yn ogystal ag yn llawlyfr hunanwerthuso Estyn ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd, ac yn nogfen yr Adran ar gyfer Addysg a Sgiliau / yr Adran Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, 'AG a Chwaraeon o Safon Uchel i Bobl Ieuainc', er mwyn gweld pa nodweddion allweddol sy'n perthyn i Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol o safon uchel.

Pan fydd ysgol yn gwneud cais am Wobr ActiveMarc Cymru, bydd yn cymryd rhan mewn proses hunanwerthuso lle nodir cryfderau'r ysgol a meysydd i'w datblygu. Mae'r ffurflen gais yn cyfeirio at fframwaith Estyn, yn seiliedig ar dri chwestiwn allweddol. Bydd y broses werthuso hon yn esgor ar lawer iawn o wybodaeth y gellir ei defnyddio'n sail ar gyfer cynllunio yn y dyfodol. Os yw ysgolion wedi cwblhau proses hunanwerthuso AGChY, gellir defnyddio tystiolaeth bwysig a nodwyd yn ystod y broses honno i gwblhau'r cais hwn.

Pa ysgolion all gyflwyno cais?

- Ysgolion cynradd
- Ysgolion babanod / Ysgolion iau
- Ysgolion uwchradd
- Ysgolion arbennig
- Ysgolion annibynnol

Mae ActiveMarc Cymru'n canolbwyntio ar ddarpariaeth o ansawdd da a safonau uchel. Nid canfod yr ysgolion sydd â'r cyfleusterau gorau yw diben y wobr.

Sut byddwch chi'n elwa?

Yr ysgol a'r llywodraethwyr – Cydnabod y gwaith o safon uchel yn yr ysgol ac yn y gymuned yn ehangach, yn ogystal â thystiolaeth ar gyfer arolwg ar yr ysgol.

Yr athrawon – Bydd Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol yn cael statws a phroffil uwch yn yr ysgol a'r gymuned ehangach

Y disgyblion – Bydd cyfle i gael ystod eang o brofiadau dysgu

Y rhieni – Tystiolaeth o brofiadau safonol mewn AG a chwaraeon ysgol ac ymroddiad i ffyrdd o fyw iach ag egnïol.

Beth fyddwch chi'n ei gael?

Bydd ysgolion sy'n ennill statws ActiveMarc Cymru'n cael tystysgrif, a byddant yn gallu arddangos logo ActiveMarc ar ddogfennau a gwefannau'r ysgol am dair blynedd.

Sut dylai ysgolion gyflwyno cais?

Gall ysgolion gymryd rhan drwy lawrlwytho ffurflen gais o adran ActiveMarc Cymru yng ngwefan Chwaraeon Cymru. Ewch i 'Ein Rhaglenni', cliciwch ar yr adran Pobl Ieuainc Egnïol neu cliciwch ar y ddolen a ganlyn i'ch arwain i'r tudalennau priodol:

http://www.sportwales.org.uk/ein-rhaglenni/am-activemarc.aspx

Llunio eich cais

Yn y nodiadau arweiniad, mae pob cwestiwn allweddol yn cynnwys 'Pwyntiau i'w hystyried' a fydd yn llywio eich ateb yn y golofn 'Nodweddion da'. Dylech chi ddarllen y pwyntiau hyn yn ofalus er mwyn sicrhau dealltwriaeth lawn o'r cwestiwn a'r hyn a ddisgwylir yn eich ateb.

Am gyngor ynghylch sut i gwblhau eich cais, darllennwch y pwyntiau'n rhoi sylw i beth i'w wneud a beth i beidio â'i wneud ar dudalen 3 o'r ffurflen gais.

Mae'r rhestr yn y golofn 'Tystiolaeth ategol' wedi'i chynnwys fel y gallwch ddewis yr elfennau sy'n berthnasol i'ch cais chi. Nid yw'r rhestr o dystiolaeth yn gyflawn nac yn gaeth. Os nad yw tystiolaeth benodol wedi'i chynnwys ynddi, ychwanegwch hi dan 'Eraill'.

PWYSIG – Pan fyddwch yn llunio datganiad yn y golofn 'Nodweddion da', sicrhewch eich bod yn croesgyfeirio'r datganiad at y dystiolaeth.

Ar dudalen olaf y ffurflen, bydd angen i'r cais gael ei gymeradwyo gan Bennaeth eich ysgol.

DS. Dim ond ffurflen gais electronig swyddogol ActiveMarc Cymru ddylid ei chyflwyno i activemarc@sportwales.org.uk. Ni ddylid cynnwys unrhyw atodiadau ychwanegol. Mae'n rhaid sicrhau bod unrhyw dystiolaeth ategol y cyfeirir ati yn eich cais ar gael os caiff eich ysgol ymweliad gan aelod o'r panel asesu. Unwaith rydych wedi cyflwyno eich ffurflen gais, byddwch yn derbyn cydnabyddiaeth gan activemarc@sportwales.org.uk.

Ceir dau gyfle i wneud cais am y wobr ym mlwyddyn academaidd 2010-11.

- **Rownd 1:**
  - Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais – 26 Tachwedd 2010. Bydd unrhyw geisiadau a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried yn Rownd 2.
  - Byddwch yn cael gwybod y canlyniad erbyn 28 Chwefror 2011.
- **Rownd 2:**
  - Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais - 08 Ebrill 2011. Ni fydd unrhyw geisiadau a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried, a bydd angen i ymgeiswyr ailgyflwyno cais yn y flwyddyn academaidd nesaf.
  - Byddwch yn cael gwybod y canlyniad erbyn 30 Gorffennaf 2011.

Mae'r panel asesu'n banel annibynnol sy'n cynnwys arbenigwyr o faes Addysg Gorfforol, e.e. arbenigwyr AG, ymgynghorwyr AG, darlithwyr AG mewn prifysgolion. Bydd penderfyniad y panel asesu'n derfynol.

Arweiniad ar Gyfer Datganiad yr Awdurdod Lleol

Bydd gofyn i'ch Awdurdod Lleol gyflwyno datganiad i banel asesu ActiveMarc Cymru. Nid oes angen i chi wneud unrhyw beth arall. Bydd y datganiad yn cynnwys tystiolaeth gan raglenni Pobl Ieuainc Egnïol (AGChY, 5x60 neu Gampau'r Ddraig) yn ogystal â thystiolaeth gan ymgynghorwyr gwella eich ysgol. Bydd y datganiad hwn yn cael ei ychwanegu at eich ffurflen gais.

CWESTIWN ALLWEDDOL 1 – PA MOR DDA YW'R CANLYNIADAU?

Pwyntiau i'w gynnwys, os yn addas:

Sylwadau ynghylch pa mor dda mae'r dysgwyr yn cyflawni mewn AG ym mhob cyfnod allweddol, gan gyfeirio at feysydd gweithgarwch unigol i dynnu sylw at faterion penodol.

1. **Pa mor dda mae'r dysgwyr yn cyflawni ac yn gwneud cynnydd mewn AG a chwaraeon ysgol - safonau?**
   a. Pa mor dda mae'r dysgwyr yn cyflawni mewn AG ym mhob cyfnod allweddol – lle bo modd, dylid cyfeirio at ddisgrifiadau lefel NCP, canlyniadau arholiadau allanol a chyrsiau galwedigaethol, os yn briodol?
   b. Pa mor dda mae'r Fframwaith Sgiliau'n cael ei weithredu drwy gyfrwng AG a chwaraeon ysgol?
   c. Pa mor dda mae'r dysgwyr yn gwneud cynnydd oddi mewn i gyfnodau allweddol a rhyngddynt?
2. **Pa mor dda mae'r dysgwyr yn cyflawni'r canlyniadau lles mewn AG a chwaraeon ysgol?**
   a. Nodwch sylwadau ynghylch agweddau'r dysgwyr at ddysgu mewn AG, y diddordeb y maent yn ei ddangos yn eu gwaith a'u gallu i barhau i ganolbwyntio.
   b. A yw eu lefelau presenoldeb a chyfranogiad yn uchel? A ydynt yn dod â'r cit priodol yn rheolaidd? A ydynt yn cymryd rhan yn frwdfrydig?
   c. A yw'r arweinwyr ieuainc yn ymwneud â chyflwyno gweithgareddau i ddysgyblion eraill? A ydynt yn cael cyfleoedd i leisio eu barn?
   d. A yw'r dysgwyr yn gwneud dewisiadau ynghylch beth a sut maent yn ei ddysgu? A ydynt yn cymryd rhan mewn 60 munud o weithgarwch bob dydd? A ydynt yn cymryd rhan mewn gweithgarwch allgyrsiol neu yn y gymuned?
   e. A ydynt yn teimlo'n iach ac yn dda amdanynt eu hunain?

Ble gellir dod o hyd i dystiolaeth i gefnogi'r cais:

- Gwaith arsylwi gwersi
- Asesiadau athrawon
- Canlyniadau arholiadau
- Gwaith hunanasesu gan ddisgyblion ac asesu gan gyfoedion
- Cofnodion ynghylch cynnydd a chyflawniad dysgwyr
- Clipiau fideo o waith/cyflawniadau dysgwyr
- Cynlluniau gwaith
- Enghraifft o waith yn ymwneud â'r cwricwlwm
- Gwybodaeth yng nghofrestri'r athrawon
- Y Cynllun Gwella Ysgol
- Y Cynllun Datblygu AG
- Adroddiadau arolygu blaenorol
- Gwerthusiadau'r dysgwyr
- Gwybodaeth reoli PIE
- Gwybodaeth arolwg Chwaraeon Cymru
- Gwaith gyda Llysgenhadon Ieuainc ac Arweinwyr Ieuainc, dyfarniadau arweinwyr chwaraeon

Pwyntiau i'w gynnwys, os yn addas:

1. **Pa mor dda ydym yn darparu ar gyfer AG a chwaraeon ysgol o safon uchel – profiadau dysgu?**
   a. A oes digon o amser yn cael ei ddarparu i'r dysgwyr ddatblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth mewn AG? (DS, y targed yw dwy awr yr wythnos)
   b. A yw'r profiadau yn eang a chytbwys? A yw'r profiadau yn diwallu anghenion y dysgwyr i gyd?
   c. A oes tystiolaeth o gysondeb a chynnydd?
   d. A yw'r cwricwlwm yn adlewyrchu'r gymuned ehangach?
   e. I ba raddau mae'r gwersi'n ysbrydoli? I ba raddau mae'r dysgwyr yn cael eu cynnwys a'u herio? A oes cyfleoedd i gynnwys y rhieni a'r gymuned er mwyn ehangu'r ystod o brofiadau dysgu?
   f. A ydych chi'n darparu cyfleoedd i'r dysgwyr fabwysiadu arferion iach am oes? A ydych chi'n rhoi cyfle i'r dysgwyr ymwneud â chynllunio eu profiadau dysgu eu hunain a derbyn cyfleoedd i arwain ac ysgwyddo cyfrifoldeb?
   g. Beth yw nodau eich Rhaglen AG y tu allan i oriau'r ysgol? A yw'r ysgol yn ymwneud â Champau'r Ddraig (ysgolion cynradd) neu 5 x 60 (ysgolion uwchradd)? A ydych yn gwerthuso eu heffeithiolrwydd?
2. **Pa mor dda ydym yn darparu ar gyfer AG a chwaraeon ysgol o safon uchel – dysgu?**
   a. A yw'r ymarferwyr yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau dysgu?
   b. A oes gan y dogfennau cynllunio ganlyniadau clir sydd wedi'u cysylltu â naill ai'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer Addysg Gorfforol neu feysydd llafur yr arholiadau?
   c. A yw'r dysgwyr yn ymwneud ag asesu eu cynnydd eu hunain, a gosod nodau? Pa mor dda mae'r dysgwyr yn deall beth maent i'w ddysgu a pham?
   d. Pa mor effeithiol yw eich dull o gofnodi ac adrodd yn ôl ar gynnydd?
3. **Pa mor dda ydym yn darparu ar gyfer AG a chwaraeon ysgol o safon uchel – gofal, cefnogaeth a chyfarwyddyd?**
   a. Pa mor dda yw cynnydd yr ysgol gyda'r cynllun Ysgolion Iach?
   b. Pa drefniadau a wneir ar gyfer asesu risg mewn AG? A yw'r dysgwyr yn cael eu dysgu i asesu, cymryd a rheoli risg?
   c. A yw'r dysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgarwch egnïol yn rheolaidd fel rhan o'r rhaglen AG? A yw'r dysgwyr yn deall y cyfraniad a wneir gan weithgarwch rheolaidd at eu hiechyd yn yr hirdymor?
   d. I ba raddau y mae'r rhaglen AG yn datblygu lefelau uchel o hunan-barch a hunanhyder ar gyfer pob dysgwr? A yw'r dysgwyr yn parchu ei gilydd waeth beth fo'u gallu? A gaiff materion sy'n ymwneud â delwedd y corff eu trin mewn modd sensitif?
   e. Beth yw'r polisïau ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn cymryd rhan? Sut caiff dysgwyr sy'n ymatal yn gyson rhag cymryd rhan eu hannog i gymryd rhan mewn AG?
   f. Pa bolisïau sydd mewn grym i sicrhau datblygiad iach y dysgwyr i gyd? Sut caiff pawb perthnasol wybod am y polisïau hyn? I ba raddau y mae'r staff a'r dysgwyr yn ymwybodol o'r polisïau hyn? Pa mor effeithiol y defnyddir asiantaethau allanol i hybu ffyrdd o fyw egnïol?

g. A yw'r dysgwyr ledled y sbectrwm Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) yn cael eu herio'n ddigonol mewn AG? A ymgynghorir â gweithwyr proffesiynol eraill ym maes meddygaeth ynghylch gweithgareddau priodol ar gyfer dysgwyr ag anghenion penodol?

4. Pa mor dda ydym yn darparu ar gyfer AG a chwaraeon o safon uchel - yr amgylchedd dysgu?

a. A oes cyfleoedd yn darparu ar gyfer pob gallu, rhyw ac amrywiaeth diwylliannol?

b. I ba raddau y mae'r cyfleusterau'n addas i'r pwrpas? A yw'r dysgwyr i gyd yn gallu defnyddio adnoddau ac offer priodol?

c. A yw'r gofod awyr agored yn cael ei ddefnyddio i wella'r dysgu ac i helpu gyda theimlo'n dda? A yw'r dysgwyr yn ymwybodol o'r cyfleoedd chwaraeon sydd ar gael yn y gymuned?

Ble gellir dod o hyd i dystiolaeth i gefnogi'r cais:

- Cynlluniau gwaith, gan gynnwys cynlluniau gwersi ac ati
- Gwaith arsylwi a gwerthuso gwersi
- Trafodaethau â dysgwyr, gan gynnwys holiaduron ynghylch bodlonrwydd dysgwyr
- Cofnodion asesu, gan gynnwys: cofnodion dysgwyr, clipiau fideo o waith/cyflawniadau dysgwyr a phroffiliau dysgwyr
- CVs athrawon
- Y Cynllun Gwella Ysgol
- Y Cynllun Datblygu
- Adroddiadau arolygu blaenorol
- Gwybodaeth reoli PIE
- Gwybodaeth arolwg Chwaraeon Cymru
- Gwaith gyda Llysgenhadon Ieuainc ac Arweinwyr Ieuainc, dyfarniadau arweinwyr chwaraeon
- Asesiadau athrawon
- Canlyniadau arholiadau
- Gwaith hunanasesu gan ddisgyblion ac asesu gan gyfoedion
- Clipiau fideo o waith/cyflawniadau dysgwyr
- Polisïau ysgol – amddiffyn plant, cyfleoedd cyfartal, pontio mewn AG, lles.
- Cofnodion asesiadau risg
- Cofnodion gweithgarwch y disgyblion

Pwyntiau i'w gynnwys, os yn addas:

1. **Pa mor effeithiol yw'r gwaith o arwain AG mewn chwaraeon ysgol?**
   a. Sut mae AG yn sicrhau proffil amlwg yn eich ysgol? Rhowch amlinelliad byr o weledigaeth yr ysgol ar gyfer AG a chwaraeon ysgol.
   b. A yw'r staff i gyd yn cael cyfle i ddatblygu eu hanghenion hyfforddi mewn AG a chwaraeon ysgol?
   c. Faint o amser ac adnoddau mae'r Arweinydd Pwnc yn eu cael i gyflawni ei rôl ef neu hi? Sut mae hyn yn cael effaith ar safon yr AG a'r chwaraeon ysgol yn eich ysgol? A oes cyfleoedd i'r staff i gyd ddatblygu eu hanghenion hyfforddi mewn AG a chwaraeon ysgol?
   d. A yw'r arweinwyr yn bodloni'r blaenoriaethau cenedlaethol a lleol ar gyfer AG a chwaraeon ysgol ar gyfer eu hysgol a'u cymuned? A ddefnyddir digwyddiadau lleol a chenedlaethol i hybu cyfranogiad mewn AG a chwaraeon ysgol, e.e. y Gemau Cymanwlad ac Olympaidd?
2. **Pa mor effeithiol yw'r gwaith o arwain AG mewn chwaraeon ysgol – codi safonau?**
   a. Pa mor effeithiol yw'r gweithdrefnau monitro a gwerthuso mewn AG?
   b. Pa mor dda yw'r arweinwyr am ymgynghori â'r holl randdeiliaid allweddol, yn cynnwys y dysgwyr, ynghylch codi safonau mewn AG a chwaraeon ysgol?
   c. Sut mae cymunedau dysgu proffesiynol, sy'n datgan datblygiadau ar gyfer AG a chwaraeon ysgol, yn cael eu sefydlu yn yr ysgol a ledled y bartneriaeth?
3. **Pa mor effeithiol yw'r gwaith o arwain AG mewn chwaraeon ysgol – gwaith partneriaeth?**
   a. A oes gennych bartneriaethau effeithiol a all sicrhau canlyniadau cadarnhaol i les y dysgwyr?
   b. Pa mor dda yw'r ysgol am weithio â phartneriaid perthnasol er mwyn datblygu cysylltiadau â'r gymuned, er enghraifft, a ydynt yn ymwneud â'r gwaith cynllunio ac yn rhannu adnoddau? Sut ydych chi'n sicrhau bod y partneriaethau hyn o safon uchel?

Ble gellir dod o hyd i dystiolaeth i gefnogi'r cais:

- Arolygon cwricwlwm
- Amserlenni
- Cynlluniau gwaith
- Proffiliau'r dysgwyr
- Gwybodaeth asesu
- Dogfennau polisi AG
- Polisïau pontio
- Deunydd cyhoeddusrwydd seremonïau gwobrwyo
- Trafodaethau â'r dysgwyr
- Amserlen y Dysgu Tu Allan i Oriau Ysgol (DTAO)
- Deunydd cyhoeddusrwydd DTAO
- Cofrestri presenoldeb DTAO
- Portffolio Campau'r Ddraig o dystiolaeth
- Trafodaethau â darparwyr cymunedol
- Cynllun Gwella Ysgol
- Cynllun Datblygu AG
- Cytundebau â darparwyr allanol